

Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at Hafwen Roberts (Henllan) sydd yn Ysbyty Abergele yn dilyn llawdriniaeth, ac at eraill o'r Fro sydd yn cael amrywiol driniaethau ar hyn o bryd. Cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant oll yn cael gwellhad llwyr a buan. Bu i Edi Glynne (Saron) dreulio rhai dyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd y penwythnos diwethaf hefyd. Da deall ei fod yn gwella. Cofiw'n hefyd am Bessie Owens (Cefn Berain) a Kitty Parry (Llanefydd) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari.

Apêl Ethiopia

Mae miliynau o Ethiopiaid mewn newyn o ganlyniad i'r sychder gwaethaf i daro'r wlad ers hanner canrif. Mae cynydu wedi eu difetha, a da byw wedi marw, a hynny mewn niferoedd enfawr oherwydd glaw afreolaidd ac effaith y newid hinsawdd yno. Ni chafwyd glaw ers dwy flynedd mewn rhai llefydd yn Ethiopia.

Gan ein bod ninnau yn byw mewn ardal amaethyddol, gallwn ddychmygu effaith yr argyfwng yma ar y wlad a'i phobl, a'u cynhaliaeth i gael byw. Mae yno tua 10 miliwn o Ethiopiaid sydd ag angen cymorth bwyd ac mae hynny'n debygol o godi i 15 miliwn yn y misoedd nesaf.

Mae *Tearfund* yn ceisio ymateb i'r argyfwng hwn trwy ddarparu cyflenwad o fwyd, hadau, gwrtaith a phorthiant i'r da byw, ond maent angen cymorth i gyrraedd mwy o bobl, rhai sydd mewn gwir angen. Felly, mae'n fwriad gennym fel Bro i wneud casgliad dros yr wythnosau nesaf. Bydd amlenni yn cael dosbarthu i bawb ac apeliwn yn garedig arnoch i gyfrannu tuag at yr Apêl arbennig yma.

Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn sôn yn yr oedfa nos Sul, Chwefror 5ed, am y gwaith dyngarol y mae *Tearfund* yn ei wneud yn y wlad mewn partneriaeth â'r eglwysi lleol, ac felly'n ffordd dda i ni gael cychwyn yr Apêl yn lleol. Felly, croeso i chi i'r oedfa i glywed mwy ac i weld yr hyn sy'n digwydd yno.

I ddod

- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-10)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 24ain–26ain. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn o'r Fro, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Chwefror 10fed**. Mwy o fanylion a ffurflenni ar gael gan Gwion.
- **LLANW** – Mae'r ŵyl Gristnogol hon yn cael ei chynnal yng Nghricieth eto eleni a hynny rhwng Ebrill 17eg–20fed. Rhaid archebu llety **erbyn Chwefror 27ain** os ydych am fanteisio ar y cabanau hunan arlwyol yn Hafan y Môr. Mwy o fanylion yn y taflenni gwybodaeth sydd ar gael, neu ewch i'r wefan llanw.org.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29^{ain} Ionawr 2017

Darllenid y Dydd

2 Corinthiaid 4:16-18

(BCND tud.198 / BCN tud.181)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Peth braf iawn yw cael estyn croeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon ym Mro Aled, ac yn arbennig felly i Oedfa'r Fro yn Llanfannan heno pan fyddwn yn derbyn nifer o ieuencid yn gyflawn aelodau. Bydd eglwysi Cefn Berain, Cefn Meiriadog, Llanefydd, Eglwys Unedig Llanfannan a Saron yn cael eu cynrychioli wrth i'r aelodau newydd gael eu derbyn a'u croesawu, a diolchwn i'r Arglwydd unwaith yn rhagor am arwydd o'i ffyddlondeb yn ein hardal. Os gallwch, dewch i ymuno hefo ni, ac os na allwch, ymunwch â ni mewn gweddi dros yr aelodau newydd – y bydd yr Ysbryd Glân yn eu harwain, yn eu nerthu, ac yn dyfnhau eu hadnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu Grist – trysor diderfyn ei bobl. (Effesiaid 3:8)

Wrth i ni ystyried cwestiynau mawr ein bywyd, a sut y mae'n ffydd yn cyd-fynd â'n profiadau, gallwn ddod ar draws anawsterau yn eithaf sydyn. Pam fod hyn yn digwydd i mi? Sut mae Duw yn caniatáu i'r fath ddioddefaint ddigwydd? Ond os trown ein sylw at y rhan o'r Beibl y byddwn yn ei ddarllen ar y cyd heddiw o'r Ail Lythyr at y Corinthiaid, gwelwn fod yr Apostol Paul yn cynnig gobaith i'r Cristion sy'n pendroni ynglŷn â'r cwestiynau anodd hyn. Wrth iddo sôn am ei weinidogaeth yn rhannu'r newyddion da am Iesu Grist, mae Paul yn pwysleisio nad yw'n digalonni (2 Cor 4:1,16) er bod ei sefyllfa i bob golwg yn un o golledion a dioddefiadau difrifol. (Gweler 2 Corinthiaid 11:24-27). Serch hynny, yr hyn y mae Paul am i Gristnogion ddeall yw bod profiadau mwyaf dirdynol y byd hwn yn gallu bod yn fodd i ni gael ein cryfhau yn ein ffydd wrth i Dduw ein hadnewyddu'n fewnol. Oherwydd, er bod Iesu'n datgan y byddai rhai yn troi cefn arno (e.e. Marc 4:16-17), nid yw'n sefyll i reswm fod dioddefaint yn ddo'i hun yn arwain at bellhau oddi wrth Dduw. Yn ôl 2 Corinthiaid 4, yr allwedd yw sylweddoli fod realiti mwy na dim ond yr hyn a welwn yn bodoli – hynny yw, mae mwy i fywyd na'r bywyd hwn yn unig! Oherwydd i Iesu Grist farw ac atgyfodi, mae maddeuant a bywyd tragwyddol yn dod fel rhodd Duw i'r rhai sydd yn credu yng Nghrist. Ac oherwydd y gwirionedd bendigedig hwn, gall y Cristion wynebu poen a phroblemau amlwg ein bywyd fel petaent yn ysgafn o'u cymharu â phwysau'r ffaith fod trysor tragwyddol yn saff i ni yn Iesu Grist ei hun. Dyna pam yr ydym i gadw'n golwg ar y pethau na welir (ond sy'n gwbl ddiogel), ac nid canolbwyntio'n unig ar yr hyn sy'n digwydd i ni ar hyn o bryd. Wrth gwrs nid yw hyn yn beth hawdd i'w wneud, ond diolch i'r Arglwydd, cawn nerth Duw i'n cynorthwyo – yr un nerth ac a gododd Iesu'n fyw o'r bedd! (Effesiaid 1:19-20)

Darllenid Wythnos Nesaf

Galarnad 3:22-26 (BCND tud.749 / BCN tud.682)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 29^{ain} ➤ **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00 i dderbyn nifer o ieuencid yr Ofalaeth yn gyflawn aelodau o'u heglwysi lleol. Bydd y casgliad yn cael ei gyfrannu i Goleg y Bala fel arwydd o'n gwerthfawrogiad am yr holl gyfleon a'r profiadau y mae'r ieuencid wedi ei gael yno dros y blynyddoedd.
- Mawrth – 31^{ain} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Iau – 2^{il} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – Sul 3^{ydd} – 5^{ed} ➤ **Penwythnos plant Gofalaeth Bro Aled (8–12 oed)** yng Ngholeg y Bala. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Os nad ydych chi eisoes wedi archebu lle, bydd angen i chi wneud hynny yn sydyn trwy anfon y ffurflen gofrestru ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala.
- Gwener – 3^{ydd} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuencid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn – 4^{ydd} ➤ **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yng Nghaffi Gorwelion, Y Bala o 10.00 – 12.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn pregethu ac yn rhannu hefo ni am waith partneriaid Tearfund yn ymateb i'r angen dirfawr yn Ethiopia.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a bydd y Parch. Ddr Elfed ap Nefydd Roberts yn dod i'r Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00 i drafod ei lawlyfr 'Dehongli Meddwl Paul'.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 1^{af} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Ionawr 29ain**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 2.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 29^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 5^{ed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.